



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ehangu ein Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd

Helo gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydych yn byw mewn ardal perygl llifogydd. Byddwn yn cysylltu â'r rhif hwn yn Saesneg os bydd rhybudd llifogydd yn eich ardal – am ddim. Hello from Natural Resources Wales. You live in a flood risk area. We'll contact this number if there's a flood warning in your area – for free. Gwybodaeth/Info: www.cyfoethnaturiol.cymru/warning Optio allan: tecstiwch DILEU i 60006. To opt out: text REMOVE to 60006

Beth: Rydym yn anfon negeseuon testun i oddeutu 15,000 o bobl i roi gwybod iddynt eu bod wedi'u hychwanegu'n awtomatig at y gwasanaeth rhybuddion llifogydd. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim a gall cwsmeriaid ddewis cael rhybuddion yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Ble: Byddwn yn anfon negeseuon testun i'r rhan fwyaf o ardaloedd rhybuddion llifogydd yng Nghymru sydd wedi'u pennu gan gydweithwyr ardal.

Pryd: Bydd y negeseuon yn cael eu hanfon ar 11 Hydref (os bydd y tywydd yn caniatáu).

Pam: Bydd y negeseuon yn hysbysu pobl eu bod wedi'u cofrestru'n awtomatig ar gyfer cael rhybuddion llifogydd a byddant yn cynnwys dolen yn arwain at dudalen ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru lle y nodir rhif Floodline pe baent yn dymuno cofrestru'n llawn ar gyfer y gwasanaeth. Gallant ddewis optio allan o'r gwasanaeth hefyd trwy ateb y neges destun.

Sut: Bydd oddeutu 15,000 o negeseuon testun awtomataidd yn cael eu hanfon trwy'r System Rhybuddion Llifogydd.

Ymatebion: Bydd cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at dudalen ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru neu'n cael cyfarwyddyd i ffonio Floodline i gael mwy o wybodaeth. Fodd bynnag, gallant ffonio neu e-bostio'r Ganolfan Gofal Cwsmeriaid gydag ymholiadau.

Cefndir

Ers 2010 mae Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi bod yn gweithio gyda British Telecom i gael mynediad at, a chofrestru'n awtomatig, rifau ffôn llinellau tir mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl mawr ar ein system rhybuddion llifogydd. Erbyn mis Mawrth 2017, roedd hyn wedi arwain at fwy na 40,000 o gyfeiriadau, nad oeddynt wedi ymuno o'r blaen â'n gwasanaeth, yn cael rhybuddion llifogydd uniongyrchol.

I adlewyrchu'r symud tuag at ddefnyddio ffonau symudol yn hytrach na llinellau tir, fe ddechreuon ni weithio gyda phedwar o ddarparwyr ffonau symudol hefyd.

Yn ôl cytundeb yn seiliedig ar y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl rhwng EE a CNC, llwyddasom i gael gwybodaeth am gyfeiriadau cofrestredig dyfeisiadau symudol ar eu rhwydwaith. Arweiniodd hyn at ychwanegu 15,000 eiddo arall at y gwasanaeth rhybuddion llifogydd erbyn Mehefin 2017. Ers hynny rydym wedi dod i gytundeb tebyg gydag Three i gofrestru eu cwsmeriaid ffonau symudol nad ydynt wedi ymuno â'r gwasanaeth eto. Bydd hyn yn ein galluogi i anfon rhybuddion yn uniongyrchol i oddeutu 15,000 eiddo ychwanegol yng Nghymru. Bydd cwsmeriaid ffonau

symudol Three yn cael negeseuon yn ymwneud â rhybuddion llifogydd perthnasol a rhybuddion llifogydd difrifol ar gyfer eu cyfeiriad bilio o 11 Hydref 2018 ymlaen – os bydd y tywydd yn caniatáu.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Vodafone i ymestyn y gwasanaeth ymhellach fyth yn ystod y chwe mis nesaf.

Yr amserlen ar gyfer ychwanegu cwsmeriaid Three

Ar 11 Hydref byddwn yn anfon negeseuon testun i 15,000 o gwsmeriaid Three i roi gwybod iddynt fod eu rhif ffôn wedi'i ychwanegu at ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim.

Bydd y negeseuon testun yn cael eu hanfon trwy ein System Rhybuddion Llifogydd i gwsmeriaid Three 15,600 sydd â chyfeiriad bilio yn ein hardaloedd Rhybuddion Llifogydd.

Ar y diwrnod byddwn yn cadarnhau amodau'r tywydd ac ni fyddwn yn bwrw ymlaen pe bai'r rhagolygon yn addo tywydd garw neu pe bai unrhyw rhybuddion llifogydd wedi'u cyhoeddi. Oherwydd y nifer fawr o negeseuon y mae angen eu hanfon, efallai y bydd yn rhaid inni newid yr amserlen ar fyr rybudd er mwyn anfon y negeseuon testun mor gyflym â phosibl.

Cynnwys y Neges

Byddwn yn anfon un neges destun ddwyieithog i bob cwsmer i'w hysbysu eu bod wedi'u cofrestru bellach ar gyfer y gwasanaeth. Bydd y neges yn cynnwys dolen yn arwain at ein gwefan er mwyn cael mwy o wybodaeth a bydd modd i'r cwsmer ateb gyda neges destun i optio allan o'r gwasanaeth.

Helo gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydych yn byw mewn ardal perygl llifogydd. Byddwn yn cysylltu â'r rhif hwn yn Saesneg os bydd rhybudd llifogydd yn eich ardal – am ddim. Hello from Natural Resources Wales. You live in a flood risk area. We'll contact this number if there's a flood warning in your area – for free. Gwybodaeth/Info: www.cyfoethnaturiol.cymru/warning Optio allan: tecstiwch DILEU i 60006. To opt out: text REMOVE to 60006.

Bydd y cwsmeriaid sy'n penderfynu peidio ag optio allan o'r gwasanaeth yn cael galwad ffôn bob tro y caiff Rhybudd Llifogydd neu Rybudd Llifogydd Difrifol eu cyhoeddi ar gyfer eu cyfeiriad bilio. Yn y Saesneg yn unig y bydd y rhybudd hwn. Pe baent yn edrych ar ein gwefan, bydd cwsmeriaid yn cael eu hannog i gofrestru'n llawn ar gyfer y gwasanaeth fel y gallant nodi eu dewis iaith a chael rhybuddion trwy SMS ac e-bost.

Mwy o Wybodaeth

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Lucy Edwards

Ymgynghorydd, Rhybuddio a Hysbysu am Llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru

Lucy.Edwards@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

9 Hydref 2018